

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 24) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 24) 2021.

**Mark Drakeford**  
**Y Prif Weinidog**

22 Rhagfyr 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 5\) \(Cymru\) 2020](#) ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws ar hyn o bryd.

### *Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Yn unol ag adran 4(1) o'r un Ddeddf, hysbyswyd y Llywydd hefyd y bydd y Rheoliadau yn dod i rym cyn iddynt gael eu gosod yn y Senedd. Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â'r Rheoliadau i rym cyn iddynt gael

eu gosod yn y Senedd, bydd modd i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted ag y bo modd er mwyn:

- lliniaru effeithiau absenoldebau estynedig staff ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru
- cysoni'r sefyllfa yng Nghymru â'r sefyllfa a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU er mwyn lliniaru unrhyw drafferthion neu ddryswch ar y ffin
- symleiddio ein rheolau hunanynysu i gynorthwyo negeseuon cyhoeddus a chynorthwyo cydymffurfiaeth.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y [Memorandwm Esboniadol](#) ar gyfer y prif Reoliadau.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwrthdroi'r ddarpariaeth benodol a gyflwynwyd ar 3 Rhagfyr; i alluogi swyddogion olrhain cysylltiadau Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru i'w gwneud yn ofynnol i bobl hunanynysu o ganlyniad i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o'r amrywiolyn Omicron (B.1.1.529) o COVID-19, neu ag achos lle y mae amheuaeth o'r amrywiolyn hwnnw. Mae'r Rheoliadau yn adlewyrchu newidiadau sydd wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr.

Bydd y diwygiadau yn golygu dychwelyd at y ddarpariaeth bresennol yn y ddeddfwriaeth sy'n eithrio cysylltiadau agos rhag hunanynysu cyhyd â'u bod wedi cwblhau cwrs llawn o frechlyn wedi'i awdurdodi, wedi cymryd rhan mewn treial brechlyn neu o dan 18 mlwydd oed. Bydd hyn yn gymwys i gysylltiadau pob achos positif – Omicron ai peidio. Bydd canllawiau hefyd yn cael eu rhoi i gynghori cysylltiadau sydd wedi'u heithrio i gymryd prawf llif unffordd bob dydd am 7 diwrnod.

Mae'r prif Reoliadau nawr wedi'u diwygio, gan gael effaith o ddechrau 22 Rhagfyr 2021 ymlaen, fel a ganlyn:

- Dileu'r gwahaniaeth rhwng cysylltiadau agos achosion y gwyddys neu yr amheuir eu bod yn Omicron, a chysylltiadau agos pob achos positif arall.
- Ni fydd rhaid i unrhyw gysylltiad agos, ni waeth pa amrywiolyn o'r coronafeirws sydd o dan sylw, hunanynysu:
  - os yw'n blentyn,

- os yw wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn y cysylltiad agos,
  - os yw'n cymryd rhan mewn treial clinigol yn y Deyrnas Unedig, neu
  - os yw'n cymryd rhan mewn cynllun profi.
- Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu, pan fo person yn dod o fewn y categorïau hyn ond yr oedd o dan ofyniad i ynysu yn union cyn dechrau'r diwrnod ar 22 Rhagfyr 2021 o ganlyniad i gael cysylltiad agos ag achos y gwyddys neu yr amheuir ei fod yn Omicron, fod y gofyniad i ynysu'n dod i ben ar ddechrau'r diwrnod ar y dyddiad hwnnw.

## **5. Y cefndir polisi**

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r newid yn y cyd-destun mewn perthynas ag ymddangosiad diweddar yr amrywiolyn Omicron o COVID-19 a'i gynnydd tuag at fod yr amrywiolyn mwyaf cyffredin.

Effaith y diwygiadau yw y bydd eithriadau blaenorol yn gymwys i'r rhai sydd wedi dod i gysylltiad agos ag unrhyw achos o COVID-19. Bydd y rhai sydd wedi'u brechu'n llawn, y rhai o dan 18 mlwydd oed a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn treial clinigol ar gyfer brechlyn wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu os ydynt wedi'u nodi fel cysylltiad agos ag achos positif. Serch hynny, bydd canllawiau ychwanegol yn cael eu rhoi i gymryd prawf llif unffordd bob dydd am 7 diwrnod. Y nod yw cydbwysu'r niwed a achosir gan hunanynysu i les unigolion, addysg, gwasanaethau cyhoeddus a'r economi, â'r angen i arafu lledaeniad Omicron cymaint â phosibl i leihau'r risg o ganlyniadau niweidiol ymysg pobl agored i niwed a'r risg o orlethu gwasanaethau iechyd a gofal.

## **6. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus ar fyrder, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## **7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill**

Mae asesiad effaith cryno wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, ond oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, nid yw wedi'i gyhoeddi eto. Bydd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.